Mae NICE wedi asesu rhwymyn diogelu 3M Tegaderm CHG IV (Tegaderm CHG) ar gyfer rhannau o'r corff lle y caiff cathetr canolog ei osod mewn gwythien neu rydweli er mwyn helpu'r GIG i benderfynu p'un a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn ai peidio.

Mae Tegaderm CHG yn rhwymyn clir, sterilaidd, gludiog sy'n cynnwys antiseptig, 2% chlorhexidine glwconad (CHG). Defnyddir y rhwymyn i gadw cathetr canolog (tiwb tenau a gaiff ei osod i mewn i rydweli neu wythïen fawr) yn ei le, ac i orchuddio a diogelu'r ardal. Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio Tegaderm CHG mewn unedau gofal dwys neu ddibyniaeth uchel ar gyfer oedolion â salwch critigol y mae angen gosod cathetr canolog i mewn i'w rhydweli neu wythïen.

Mae'n bosibl y bydd y timau ysbytai am ddefnyddio Tegaderm CHG am y rhesymau canlynol:

- gellir gweld yr ardal o amgylch y cathetr drwy'r rhwymyn
- mae'n cynnwys antiseptig, er mwyn diogelu rhag haint
- mae'n lleihau heintiau llif gwaed a heintiau lleol y gall cathetr eu hachosi, o gymharu â rhwymynnau safonol
- gall arbed arian o gymharu â rhwymynnau safonol.

ISBN: 978-1-4731-1415-9